



2 September 2021

Dear Parents / Guardians,

### The Start of the new academic year 2021-22

#### Pupils Return:

**All pupils** will return on **Monday 6th September**. Pupils will be greeted by staff on their return and meet their form tutor for induction.

We kindly ask that **Year 7 pupils bring a packed lunch for the first week back** and they will thereafter, they will be able to purchase food from the canteen. Pupils eligible for Free school meals will be provided with a packed lunch by the school.

I am writing to you on the threshold of a new academic year in the hope that you are well and have enjoyed some rest and relaxation time during the summer holidays. We are certainly looking forward to welcoming pupils back to class at the start of this new academic year. At the beginning of the new term I would like to share some current information as much has changed over the past few weeks and since the end of last academic year.

#### COVID-19

The COVID-19 situation has certainly improved, and the Welsh Government has decided to move to warning level zero, easing many of the social restrictions that had been in place for the previous 18 months. However, we know that the virus remains within our communities and that the number of positive cases remains worryingly high, especially amongst young people. The national vaccination programme is extremely successful, with most adults in Wales having received both doses. The programme has resulted in a dramatic reduction in cases requiring hospitalisation.

**It is important to remember that being immunised for COVID-19 does not mean that we cannot become infected by the virus, but it has been proven that it significantly reduces the risk of transmission of the virus.**

Following the Welsh Government's COVID control plan which was published recently and the Local Authority's Operational Guidance for Schools, the majority of the mitigating measures in schools will continue to be in place including; risk assessments, improved hygiene and ventilation, and preventing attendance by individuals with COVID-19 symptoms, but other measures are being relaxed as part of a proportionate system of controls.

Individuals who test positive for COVID-19 still have to isolate for 10 days. However, at alert level zero, contacts of a proven case of COVID-19 who are under the age of 18 or those who are fully vaccinated do not have to self-isolate unless they themselves start to show symptoms of COVID-19. This Welsh Government decision will reduce the impact on schools and education significantly this term.

Please note that the following rules and regulations will remain in place for the start of term in order to continue to reduce the risk to staff and pupils of being infected by the virus. **I kindly ask you to reinforce the importance of these rules and regulations with your child before he/she returns to school in order to reduce the possible risk of transmission of the virus in school:**

## Illness / Covid-19 Symptoms

Please keep your child at home if he/she is feeling unwell or displaying covid-19 symptoms and make arrangements for a PCR test in order to protect every member of the school community. It is essential that every member of the school community does their utmost to ensure that the virus does not enter the school and we must continue to focus our efforts on keeping everyone safe from the virus.

If a staff member or learner becomes symptomatic whilst at school, arrangements will be made for them to leave the school site as practicable, and they should arrange a test as soon as possible and self-isolate until the outcome of the test.

## Lateral Flow Tests (LTFs)

Staff and pupils are reminded of the importance of testing themselves with the lateral flow tests twice weekly, 2 to 3 days apart and throughout the term (recommended for every Monday and Thursday morning). Remind your child to ask for another testing kit in school once they've finished a kit. If your child tests positive, please report the result directly to school (by emailing our dedicated email address: [covid19@ygcwmrhondda.cymru](mailto:covid19@ygcwmrhondda.cymru) or by phoning the school) and to the local health board. These lateral flow tests are voluntary, but I would encourage pupils and staff to take the tests as a further precautionary measure. If you do not have sufficient kits at home for the week preceding the return to school, they can be obtained through local pharmacies or ordered via the Welsh Government website: <https://gov.wales/get-rapid-lateral-flow-covid-19-tests-if-you-do-not-have-symptoms>

## Face Coverings

The wearing of face coverings is mandatory in public spaces in Wales. I therefore expect every member of the school community to wear a mask or face covering within the school building, our communal areas, corridors and stairways. The wearing of a face covering in class is not mandatory, but pupils can choose to wear one if they feel more comfortable or safe in doing so. The wearing of face coverings is mandatory on public transport, which includes school transport. Your child risks being refused the right to travel on a school bus if they do not wear a face covering. Please can you ensure that your child has a face covering in their pocket or school bag as they leave home for school in the morning?

## Hand-washing

Pupils will be encouraged to wash their hands regularly throughout the day and to sanitise their hand upon entering classrooms / communal areas of the school.

## Equipment

Pupils are expected to bring their own pencil case and learning resources to school to cater for their range of subjects, as sharing equipment will not be encouraged. We will ask pupils to be responsible for their school bags throughout the school day, including break time and lunch time.

## Visitors

We ask kindly that you make an appointment if you would like to speak to a member of staff. Most meetings can be accomplished virtually or by telephone.

## School uniform

Pupils are expected to wear the normal school uniform in September. We will maintain our high standards with regard to uniform. May I remind you that we do not allow, jeans, leggings or lycra skirts. Skirts and trousers of

school uniform material only. No jewellery, no false nails or hair of an unnatural colour. Natural make-up only. Please continue to check that your child is not wearing jewellery as he or she leaves for school in the morning.

#### PE kit

Pupils are expected to bring school PE kit in September. Could you please ensure a brief note for the teacher if your child has no kit or cannot participate in a lesson for any reason?

#### Mobile phones

Could you please assist us in explaining to your child the school rule on the use of mobile phones in school? The use of mobile phones is not permitted in school apart from in lessons under the direction and supervision of the teacher for learning purposes. If your child needs to make a call during the day, they must go the reception / Head of Year area and explain the situation to a member of staff who will then supervise the pupil whilst making the call.

#### Dinner / Break time

To allow for greater social distancing we will be continuing to run split break and dinner times for KS3 / KS4-5:

### TREFN Y DYDD

#### BLWYDDYN 7, 8, 9

	BORE BUGEILIOL (Dydd Llun yn unig)	Dydd Mawrth – Gwener
<b>Cofrestru / Bugeiliol</b>	<b>8.40 – 9.15</b>	<b>8.40 – 9.00</b>
Gwers 1	9.15 – 10.05 [50]	9.00 – 9.55 [55]
<b>EGWYL</b>	<b>10.05 – 10.25 [20]</b>	<b>9.55 – 10.15 [20]</b>
Gwers 2	10.25 – 11.15 [50]	10.15 – 11.10 [55]
Gwers 3	11.15 – 12.05 [50]	11.10 – 12.05 [55]
<b>CINIO</b>	<b>12.05 – 12.50 [45]</b>	<b>12.05 – 12.50 [45]</b>
Gwers 4	12.50 – 1.35 [45]	12.50 – 1.35 [45]
Gwers 5	1.35 – 2.25 [50]	1.35 – 2.25 [50]
Gwers 6	2.25 – 3.15 [50]	2.25 – 3.15 [50]

#### BLWYDDYN 10,11 + CA5

	BORE BUGEILIOL (Dydd Llun yn unig)	Dydd Mawrth – Gwener
<b>Cofrestru / Bugeiliol</b>	<b>8.40 – 9.15</b>	<b>8.40 – 9.00</b>
Gwers 1	9.15 – 10.05 [50]	9.00 – 9.55 [55]
Gwers 2	10.05 – 10.55 [50]	9.55 – 10.50 [55]
<b>EGWYL</b>	<b>10.55 – 11.15 [20]</b>	<b>10.50 – 11.10 [20]</b>
Gwers 3	11.15 – 12.05 [50]	11.10 – 12.05 [55]
Gwers 4	12.05 – 12.50 [45]	12.05 – 12.50 [45]
<b>CINIO</b>	<b>12.50 – 1.35 [45]</b>	<b>12.50 – 1.35 [45]</b>
Gwers 5	1.35 – 2.25 [50]	1.35 – 2.25 [50]
Gwers 6	2.25 – 3.15 [50]	2.25 – 3.15 [50]

#### Catering arrangements

The catering team will be offering a lunch-time service from the beginning of term. However, you may wish to consider providing your child with a packed lunch for the first few days of term as it will inevitably take the catering team a few days to become fully operational and to avoid long queues for food. Providing your child with a break-time snack is also advisable. Year 7 pupils will need to bring a packed lunch to school daily until their biometric payment system has been activated, this may take a few days.

### School transport (RCT Integrated transport unit)

Every pupil who is eligible for school transport will have received notifications through the post over the past few weeks. If you have any queries regarding school transport, please contact 01443 425001 or online at:

<https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/SchoolandCollegeTransport.aspx>

We look forward to working with you closely in the year ahead, and as always if you require further information please contact the school and follow our twitter account [@YGCwmRhondda](#)

Best wishes and please remain safe,



Craig Spanswick  
Headteacher

## COVID-19 SYMPTOMATIC LEARNERS AND STAFF

### (RCT OPERATIONAL GUIDANCE FOR SCHOOL SEPTEMBER 21)

In accordance with Public Health Wales advice, learners or staff should not attend schools/settings if they:

- have any of the three identified COVID-19 symptoms (a new continuous cough, or a high temperature or loss of or change to their sense of taste or smell) (whether they feel unwell or not); or
- they have tested positive to COVID-19 in the past 10 days; or
- they have been advised by Test, Trace and Protect to self-isolate; or
- they have returned from a country specified by the Foreign and Commonwealth Office as being subject to quarantine.

Those showing classic COVID-19 symptoms during the school day should be kept separate until they can be collected and taken home. Ideally, this should be in a separate room, supervised at a distance of two metres (**if two metres cannot be maintained then PPE should be used**).

Surfaces that learners or staff with symptoms have come into with should be carefully and thoroughly cleaned.

**Everyone who has classic coronavirus symptoms or who tests positive will continue to be required to self-isolate - no matter how old they are or whether they have been vaccinated or not.**

Anyone displaying symptoms of COVID-19 should stay at home and begin to self-isolate for at least **10 days** from the date of symptom onset while making arrangements to be tested. Any other members of the household 18 years and over who have not been fully vaccinated against COVID-19 should also self-isolate. If the test result is negative the individual with symptoms and isolating members of the household will not be required to complete the full **10 day** isolation period (unless instructed to isolate for other reasons).

Local Health Boards are also making COVID-19 testing available to people with a wider range of symptoms such as fatigue, muscle ache or pain, a sore throat, a headache, a runny nose, nausea, vomiting or diarrhoea.

For children displaying wider symptoms parents/carers can book a PCR test online by selecting the 'book a test if advised by a Public Health adviser' option.

Parents/carers can also **ring 01443 443151** to book a PCR test if their child has wider symptoms.

Parents/carers should only be requested to urgently collect children from school if:

- they are too unwell to remain in school; or
- they have one of the three classic COVID-19 symptoms (i.e. a new continuous cough, or a high temperature or loss of or change to their sense of taste or smell); or
- there are significant concerns.

It is a parent/carer's decision whether to take the child for a test. This cannot be enforced. Children can return to school if they are feeling well enough (unless they are displaying one of the three classic COVID-19 symptoms and/or are completing a required self-isolation period).

Individuals are asked to consider taking a test if they are experiencing any of these wider symptoms and they are new, persistent and/or unusual symptoms for them. **Individuals who take a test because of these other wider symptoms are not legally required to isolate while they await their test result.** Children and adults with diarrhoea and/or vomiting should remain away from their school or setting until they are symptom free for 48 hours even if their COVID-19 test is negative. In addition - unless they develop one of the three main symptoms - the individual's household does not have to self-isolate.

If individuals then receive a positive COVID-19 result, they and any members of their household who are over 18 and not fully vaccinated must then isolate. **Household contacts who are fully vaccinated or under 18 do not need to self-isolate.**



Annwyl Riant / Warcheidwad,

### Cychwyn blwyddyn academiaidd newydd 2021-22

#### Disgyblion yn Dychwelyd

Bydd ein holl ddisgyblion yn dychwelyd ar **ddydd Llun 6 Medi**. Ar eu dydd cyntaf yn ôl bydd y disgyblion yn cael eu croesawu gan staff ac yn cwrdd â'u tiwtor dosbarth ar gyfer anwytho.

**Gofynnwn i Fl.7 ddod â phecyn bwyd ar gyfer yr wythnos gyntaf yn ôl**, ac wedi hynny bydd y disgyblion hynny yn medru prynu cinio ysgol o'r ail wythnos ymlaen. Bydd disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn derbyn pecyn bwyd gan yr ysgol.

Ysgrifennaf atoch ar drothwy cychwyn blwyddyn academiaidd newydd gan obeithio bod pawb yn iach ac wedi medru mwynhau cyfnod o orffwys yn ystod gwyliau'r haf. Rydym yn sicr yn edrych ymlaen at groesawu disgyblion yn ôl i'r dosbarth ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd newydd hon.

Mae llawer wedi newid ers i mi ysgrifennu atoch ddiwethaf, yng nghanol mis Gorffennaf, a bwriad y llythyr hwn yn cyflwyno ychydig o wybodaeth ddefnyddiol i chi am ein gweithdrefnau ar gychwyn tymor newydd.

#### COVID-19

Yn ddi-os, mae sefyllfa COVID-19 wedi gwella llawer erbyn hyn, gyda Llywodraeth Cymru yn penderfynu llacio nifer o'r cyfyngiadau cymdeithasol wrth symud at lefel rhybudd sero. Gwyddom serch hynny fod COVID-19 yn parhau o fewn ein cymdeithas a bod nifer yr achosion yn parhau'n bryderus o uchel, yn enwedig ymysg pobl ifanc.

Mae'r rhaglen frechu genedlaethol wedi bod yn hynod lwyddiannus, gyda mwyafrif oedolion Cymru wedi derbyn dau frechiad erbyn hyn. Mae'r brechlyn wedi llwyddo i leihau nifer y cleifion COVID-19 sydd wedi gorfod derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn sylweddol.

**Mae'n bwysig i ni gofio nad yw'r brechlyn yn ein hatal rhag dal y feirws, ond mae wedi'i brofi ei fod yn helpu lleihau trosglwyddiad y feirws i eraill.**

Yn dilyn Cynllun Rheoli COVID-19 Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar a Chanllawiau Gweithredu'r Awdurdod Lleol, bydd mwyafrif y mesurau lliniaru mewn ysgolion yn parhau, gan gynnwys asesiadau risg, trefniadau hylendid ac awyru gwell, a threfniadau i atal presenoldeb gan unigolion â symptomau COVID-19, ond caiff mesurau eraill eu llacio fel rhan o system gymesur o fesurau rheoli.

Mae disgwyl i unrhyw un sydd yn cael prawf COVID-19 positif ynysu am 10 diwrnod, ond, ar lefel rhybudd sero, nid oes rhaid i'r rheini a fu mewn cyswllt â'r achos positif sydd o dan 18 oed neu sydd wedi'u brechu'n llawn hunanyysu, oni bai eu bod nhw eu hunain yn dechrau dangos symptomau. Fe ddylai'r penderfyniad yma gan Lywodraeth Cymru leihau'r effaith ar ysgolion ac addysg yn sylweddol y tymor hwn.

Er mwyn diogelu disgyblion a staff rhag dal COVID-19, bydd y gweithdrefnau canlynol yn weithredol yn yr ysgol ar gychwyn y tymor, a **gofynnaf yn garedig i chi egluro pwysigrwydd y gweithdrefnau hyn wrth eich plentyn/plant er mwyn atal lledaeniad y feirws ymysg ein gilydd:**

### Salwch / Symptomau Covid-19

Gofynnaf yn garedig i chi gadw eich plentyn gartref os oes unrhyw arwyddion o salwch neu anhwylder, a chofrestru am brawf PCR. Mae'n hanfodol bwysig bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn parhau i gymryd y risg o ledaeniad COVID o ddifrif ac yn gwneud pob ymdrech i atal y feirws rhag cyrraedd yr ysgol. Gofynnir i bawb ystyried cael prawf os ydynt yn dangos unrhyw un o'r symptomau ehangach a'u bod yn symptomau newydd, parhaus ac/neu anarferol iddyn nhw.

Os oes dysgwyr, aelod o staff neu ymwelydd yn mynd yn sâl neu'n symptomatig wrth fynychu'r ysgol, fe fyddwn yn trefnu eu bod yn gadael yr ysgol cyn gynted ag y bo modd ac yn dilyn cyngor Profi, Orlhain a Diogelu, gan gynnwys hunanynysu a threfnu prawf.

### Profion llif unffordd (LFT)

Mae disgwyl i ddisgyblion a staff gymryd prawf llif unffordd yn y cartref ddwywaith yr wythnos, 2 neu 3 diwrnod ar wahân (bob bore Llun ac Iau cyn dod i'r ysgol) yn ystod y tymor. Mae angen i ddisgyblion gofio casglu pecynnau newydd o'r ysgol pan fod angen. Yn amlwg, os yw'r prawf yn un cadarnhaol, bydd angen cysylltu â'r ysgol cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â'r gwasanaeth iechyd er mwyn trefnu prawf PCR. Mae'r profion yn rhai gwirfoddol ond rwy'n annog pawb i'w defnyddio.

Os nad oes mwy o brofion llif unffordd gennych yn y tŷ ar gyfer yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol, fe allwch archebu profion drwy'r fferyllfa leol neu drwy wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/cael-profion-llif-unffordd-covid-19-cyflym-os-nad-oes-gennych-symptomau>

### Gorchudd Wyneb

Mae gwisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus yn parhau i fod yn orchymynnol yng Nghymru, felly fe fydd disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol wisgo gorchudd wyneb o fewn adeilad yr ysgol, o fewn ein mannau cyhoeddus, ar y grisiau ac ar hyd y coridorau. Ni fydd disgwyl i ddisgyblion na staff wisgo eu gorchuddion wyneb yn yr ystafelloedd dosbarth oni bai eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus neu'n ddiogel wrth wneud hynny. Gofynnir yn garedig i chi atgyfnerthu pwysigrwydd gwisgo gorchudd wyneb ar y bysiau ysgol. Mae hyn yn orchymyn cenedlaethol ar gyfer teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae disgyblion yn peryglu eu lle ar y bws os nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheol hyn. A fyddai modd i chi sicrhau fod gan eich plentyn orchudd wyneb addas bob dydd?

### Diheintio dwylo

Byddwn yn annog ein dysgwyr i olchi eu dwylo yn rheolaidd yn ystod y dydd. Caniateir i ddisgyblion ddod â'u diheintydd dwylo eu hunain i'r ysgol.

### Offer

Bydd angen i bob disgybl gofio dod â chas pensiliau llawn i'r ysgol gan nad yw hi'n synhwyrol i fenthyg neu rannu offer. Mae hyn yn cynnwys yr holl offer y byddai disgwyl i ddisgybl gael mewn gwers fathemateg e.e. pren mesur, cyfrifiannell, onglydd, pensil ayb. Gofynnir i bob disgybl ofalu am ei fag ysgol yn ystod amser egwyl a chinio ac i osgoi gadael y bag heb oruchwyliaeth drosto. Gofynnwn yn garedig i chi drefnu apwyntiad os am weld aelod o staff. Fe all y mwyafrif o gyfarfodydd ddigwydd naill ai'n rhithiol neu drwy alwad ffôn.

## Gwisg ysgol

Disgwylir i bob disgybl wisgo gwisg ysgol arferol ym mis Medi. Byddwn yn mynnu safonau uchel o ran gwisg. Gwiriwch y rheolau, gan gofio dim jîns, legins na sgertiau lycra – sgertiau a throwsus o ddefnydd gwisg ysgol yn unig. **Dim gemwaith, dim ewinedd ffug na lliw gwallt annaturiol.** Colur naturiol yn unig. Parhewch i wirio eich plentyn yn y bore cyn iddynt adael am yr ysgol i sicrhau nad ydynt yn gwisgo gemwaith i'r ysgol.

## Gwisg addysg gorfforol

Disgwylir i bob disgybl ddod â chit ymarfer corff arferol ym mis Medi ar gyfer eu gwersi Addysg Gorfforol / Ffitrwydd. Gofynnaf yn garedig i chi sicrhau bod gan eich plentyn nodyn i'r athro os oes rheswm am ddiffyg cit neu reswm dilys pam na all y disgybl gymryd rhan yn y wers.

## Ffonau symudol

Allwch chi atgyfnerthu rheol yr ysgol ar y defnydd o ffonau symudol gyda'ch plentyn, os gwelwch yn dda? Caniateir y defnydd o ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth yn unig gyda chaniatâd athro ar gyfer cefnogi'r broses ddysgu. Ni chaniateir y defnydd o ffonau symudol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Os oes angen i ddisgybl gysylltu gartref am unrhyw reswm, dylent fynd i'r dderbynfa / Swyddfa Arweinydd Blwyddyn cynnydd i ofyn am ganiatâd a gwneud yr alwad dan oruchwyliaeth.

## Trefniadau Egwyl a Chinio

Er mwyn hwyluso trefniadau pellhau cymdeithasol, bydd yr ysgol yn parhau i weithredu egwyl a chinio wedi rhannu, fel y ganlyn:

### TREFN Y DYDD

#### BLWYDDYN 7, 8, 9

	BORE BUGEILIOL (Dydd Llun yn unig)	Dydd Mawrth – Gwener
<b>Cofrestru / Bugeiliol</b>	<b>8.40 – 9.15</b>	<b>8.40 – 9.00</b>
Gwers 1	9.15 – 10.05 [50]	9.00 – 9.55 [55]
<b>EGWYL</b>	<b>10.05 – 10.25 [20]</b>	<b>9.55 – 10.15 [20]</b>
Gwers 2	10.25 – 11.15 [50]	10.15 – 11.10 [55]
Gwers 3	11.15 – 12.05 [50]	11.10 – 12.05 [55]
<b>CINIO</b>	<b>12.05 – 12.50 [45]</b>	<b>12.05 – 12.50 [45]</b>
Gwers 4	12.50 – 1.35 [45]	12.50 – 1.35 [45]
Gwers 5	1.35 – 2.25 [50]	1.35 – 2.25 [50]
Gwers 6	2.25 – 3.15 [50]	2.25 – 3.15 [50]

#### BLWYDDYN 10,11 + CA5

	BORE BUGEILIOL (Dydd Llun yn unig)	Dydd Mawrth – Gwener
<b>Cofrestru / Bugeiliol</b>	<b>8.40 – 9.15</b>	<b>8.40 – 9.00</b>
Gwers 1	9.15 – 10.05 [50]	9.00 – 9.55 [55]
Gwers 2	10.05 – 10.55 [50]	9.55 – 10.50 [55]
<b>EGWYL</b>	<b>10.55 – 11.15 [20]</b>	<b>10.50 – 11.10 [20]</b>
Gwers 3	11.15 – 12.05 [50]	11.10 – 12.05 [55]
Gwers 4	12.05 – 12.50 [45]	12.05 – 12.50 [45]
<b>CINIO</b>	<b>12.50 – 1.35 [45]</b>	<b>12.50 – 1.35 [45]</b>
Gwers 5	1.35 – 2.25 [50]	1.35 – 2.25 [50]
Gwers 6	2.25 – 3.15 [50]	2.25 – 3.15 [50]



## Gwasanaeth arlwyo

Fe fydd y tîm arlwyo yn cynnig gwasanaeth cinio yn unig o gychwyn y tymor. Fe fyddai'n werth ystyried darparu pecyn bwyd i'ch plentyn am rai diwrnodau nes bo'r gwasanaeth arlwyo yn gwbl weithredol ac er mwyn osgoi gorfod ciwio'n hir am fwyd. Mae darparu byrbryd i'ch plentyn ar gyfer amser egwyl hefyd yn syniad da. Bydd angen i ddisgyblion Bl.7 ddod â phecyn bwyd i'r ysgol yr wythnos gyntaf nôl nes bo'r system taliadau biometrig yn weithredol, ac fe allai hyn gymryd rai dyddiau.

## Bysiau ysgol (Uned Drafnidiaeth Integredig RCT)

Fe ddylai pob plentyn sydd yn gymwys i dderbyn cludiant i'r ysgol gan wasanaeth drafnidiaeth y sir fod wedi derbyn manylion drwy'r post yn ystod yr wythnosau diwethaf. Os ydych am wneud ymholiadau pellach, yna cysylltwch gydag adran drafnidiaeth ysgolion yr awdurdod ar 01443 425001 neu ar-lein:

<https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/SchoolandCollegeTransport.aspx>

Edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos â chi yn y flwyddyn o'n blaen, ac fel arfer os ydych am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni a chofiwch ddilyn ein cyfrif trydar ar [@YGCwmRhondda](#)

Cofion gorau a chadwch yn sâff,



Craig Spanswick  
Prifathro